SESIWN DDAEARYDDIAETH: MAPIO'R GWAHANIAETHAU

Ystod oedran: 9-14 oed

Amlinelliad

Bydd y dysgwyr yn ystyried nodweddion tebyg a gwahaniaethau posibl rhwng y gwledydd sy'n cymryd rhan yng Nghwpan y Byd 2018. Yna, byddant yn defnyddio gêm *Cardiau Cryfion Cwpan y Byd* i ymchwilio i'r modd y mae incwm blynyddol cyfartalog y pen, sgôr tegwch a safleoedd ar restr detholion FIFA yn amrywio rhwng y gwledydd hyn, cyn mynd ati i drafod yr hyn sy'n debygol o achosi'r anghydraddoldebau hyn rhwng gwledydd. Yn olaf, bydd y dysgwyr yn graddliwio mapiau o'r byd i ddangos rhai o'r gwahaniaethau hyn rhwng gwledydd, a thrafod rhai rhesymau "pêl-droed" a rhai "nad ydynt yn ymwneud â phêl-droed" pam y mae gan rai gwledydd fwy o siawns o ennill Cwpan y Byd nag eraill.

Amcanion dysgu

- Adnabod rhai nodweddion tebyg a gwahaniaethau rhwng, ac o fewn, gwahanol wledydd.
- Datblygu sgiliau daearyddol wrth ddefnyddio mapiau, a dadansoddi a dehongli gwahanol ffynonellau data.
- Meddwl yn feirniadol ynghylch rhai rhesymau posibl sy'n creu rhai o'r anghydraddoldebau rhwng gwledydd.

Deilliannau dysgu

- Bydd y dysgwyr yn rhestru ac yn trafod y nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau posibl a all fodoli rhwng gwledydd ac o fewn gwledydd sy'n cymryd rhan yng Nghwpan y Byd 2018.
- Bydd dysgwyr yn chwarae gêm *Cardiau Cryfion Cwpan y Byd* i adnabod ac i drafod y modd y mae incwm cyfartalog y pen, sgôr tegwch a safle ar restr detholion FIFA yn amrywio rhwng gwledydd.
- Bydd dysgwyr yn graddliwio ar fap o'r byd i ddangos sut y mae incwm cyfartalog a safleoedd FIFA yn amrywio rhwng gwledydd.

Cwestiynau allweddol

- Beth yw'r nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau rhwng y gwledydd sy'n cymryd rhan yng Nghwpan y Byd 2018?
- Beth yw anghydraddoldeb?
- Yn eich barn chi, beth yw'r rhesymau dros yr anghydraddoldebau hyn?
- Pam y mae rhai gwledydd yn fwy tebygol o ennill Cwpan y Byd nag eraill?
- Ydych chi'n credu bod y gwahaniaethau hyn yn deg? Pam yr ydych yn meddwl hyn?

Adnoddau

- Sioe Sleidiau Ddaearyddiaeth *Cwpan y Byd: Chwarae Teg?*
- Darnau mawr o bapur (un i bob grŵp o dri o ddysgwyr) neu bapur siart troi (dau ddarn) ac ambell nodyn gludiog (dau neu dri i bob dysgwr neu grŵp/pâr o ddysgwyr)
- Setiau o bensiliau lliwio (Rhwng dwy a phedair gradd o ambell liw)
- Taflen adnoddau:
  1. *Tabl Ystadegau Cwpan y Byd (hefyd wedi ei ddarparu ar ffurf taenlen MS Excel ar wahân)*
- Taflenni gweithgareddau (un copi A3 o un o'r rhain i bob pâr o ddysgwyr):
  1. *Mapio incwm blynyddol cyfartalog y pen*
  2. *Mapio safleoedd ar restr detholion FIFA*
  3. *Mapio sgorau tegwch*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Gweithgaredd 1 (25 mun)

Nodweddion tebyg a gwahaniaethau

- Gofynnwch i'r dysgwyr ym mha le y bydd Cwpan y Byd yn cael ei chynnal yn 2018 (Rwsia). Dangoswch sleid 3 o'r sioe sleidiau Ddaearyddiaeth iddynt a gofynnwch i'r dysgwyr ddangos lleoliad Rwsia a'r DU ar fap y byd. Cliciwch ddwywaith ar y sleid i ddangos y lleoliadau cywir.
- Eglurwch y bydd 32 o wledydd ledled y byd yn cymryd rhan yng Nghwpan y Byd. Dangoswch sleid 4 a dywedwch mai dyma faneri'r gwledydd sy'n cymryd rhan. Mae'r gwledydd hyn wedi'u lliwio yn las ar fap y byd (gweler nodiadau'r sleidiau am ragor o fanylion). *Noder: Ceir manylion y gwledydd y mae'r baneri'n perthyn iddynt yn y* Cardiau Cryfion Cwpan y Byd *(sydd ar gael i'w lawrlwytho ar wahân).*
- Gofynnwch i'r dysgwyr nodi pa faneri y gallant eu hadnabod. *Ble mae'r gwledydd hyn ar y map? A oes gan unrhyw un gysylltiad â rhai o'r gwledydd hyn?* Er enghraifft, gall hyn fod yn gysylltiad teuluol neu trwy ffrindiau, eu bod wedi ymweld â gwlad pan oeddent ar wyliau neu eu bod yn prynu nwyddau o un o'r gwledydd.
- Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau bach, a rhowch ddarn mawr o bapur i bob grŵp. Dangoswch sleid 5 a gofynnwch iddynt rannu eu papur yn ddwy ran ac ysgrifennu "Nodweddion Tebyg" ar dop un hanner, a "Gwahaniaethau" ar dop y rhan arall. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio gyda'i gilydd i feddwl am y nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau y maent yn credu allai fodoli rhwng y gwledydd hyn (ceir enwau'r 32 o wledydd Cwpan y Byd ar sleid 6). Neu, mae modd i chi wneud hyn ar ffurf gweithgaredd dosbarth cyfan gan ddefnyddio dau ddarn o bapur siart troi, a gofyn i'r dysgwyr gofnodi eu syniadau ar ambell nodyn gludiog a'u gosod ar y darn papur priodol.
- Pwysleisiwch mai tasg fer yw hon, ac nid oes iddi atebion cywir nac anghywir. Anogwch y dysgwyr i ystyried gwahanol agweddau ar ddaearyddiaeth ddynol a ffisegol. Dylai'r dysgwyr feddwl am nodweddion tebyg a gwahaniaethau generig yn hytrach na rhai penodol; er enghraifft, yn gysylltiedig â'r hinsawdd, tirwedd, diwydiant, poblogaeth, iaith ac incwm cyfartalog.
- Nodwch er y bydd nifer o wahaniaethau rhwng y gwledydd, y bydd hefyd nifer o nodweddion tebyg. Ym mhob un o'r gwledydd hyn, bydd nifer o bobl ifanc sydd â ffordd o fyw tebyg i un pobl ifanc yn y DU.
- Eglurwch y bydd y dysgwyr, yn y gweithgaredd nesaf, yn darganfod mwy am rai o'r gwahaniaethau rhwng, ac o fewn, y gwledydd hyn.

Gweithgaredd 2 (45 mun+)

Cardiau Cryfion Cwpan y Byd

Noder: Yn y gweithgaredd hwn, bydd dysgwyr yn chwarae gêm Cardiau Cryfion Cwpan y Byd i ymchwilio sut y mae incwm, anghydraddoldeb o fewn gwledydd a safleoedd ar restr detholion FIFA yn amrywio rhwng y gwledydd sy'n cymryd rhan. Mae'r cyfarwyddiadau a'r Cardiau Cryfion Cwpan y Byd ar gael i'w lawrlwytho ar wahân.

- Dangoswch sleid 7 ac eglurwch y gallwn ystyried anghydraddoldeb fel y gwahaniaeth rhwng y pethau sydd gan rai grwpiau o bobl o'u cymharu â grwpiau eraill o bobl. Mae bron fel edrych ar ba mor fawr yw'r darn o gacen sydd gan un person o'i gymharu â'r darn sydd gan berson arall.
- Dangoswch sleid 8 ac eglurwch fod anghydraddoldeb yn bodoli rhwng gwledydd; er enghraifft, mae rhai gwledydd yn gyfoethog tra bo rhai eraill yn dlawd iawn. Eglurwch fod incwm (faint o

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

arian y mae pobl yn ei wneud, o ganlyniad i waith neu fuddsoddiadau) yn aml yn cael ei ddefnyddio i gymharu gwledydd â'i gilydd.

- Eglurwch fod gwahaniaethau enfawr rhwng incwm gwahanol wledydd. Mae mudiad o'r enw Banc y Byd yn cadw llygad barcud ar hyn. Mae'n benthyg arian i wahanol wledydd ac yn cyfrifo "incwm" y gwledydd, ar sail cyfartaledd y pen er mwyn gallu cymharu gwledydd sydd â mwy neu lai o bobl. I'w gyfrifo, maent yn adio cyfanswm yr arian a wneir yn y wlad honno trwy gydol y flwyddyn. Yna, caiff ei rannu yn ôl y nifer o bobl yn y wlad. Cyfrifir hyn gan ddefnyddio doleri UDA er mwyn cymharu pob gwlad yn deg.
- Dangoswch sleid 9 a gofynnwch i'r dysgwyr roi cynnig ar roi'r pedair gwlad mewn trefn, yn ôl eu hincwm blynyddol cyfartalog y pen. Cliciwch ar y sleid bedair gwaith er mwyn rhannu'r atebion cywir. *Noder: Mae'r ffigurau hyn ar gyfer dull Atlas GNI y pen ($UDA cyfredol). Ceir y symiau cyfatebol mewn Punnoedd Prydeinig (£) yn nodiadau'r sleidiau.*
- Eglurwch fod Banc y Byd yn trefnu gwledydd yn wahanol grwpiau yn ddibynnol ar eu hincwm: isel, incwm-canolig-is, incwm-canolig-uwch ac uchel. Cliciwch ar sleid 9 eto i ddangos y grwpiau incwm ar gyfer y pedair gwlad yma.
- Dangoswch sleid 10 ac eglurwch fod anghydraddoldeb yn aml yn bodoli o fewn gwledydd, lle nad oes gan rai pobl braidd dim byd, a bod gan eraill lawer. Tynnwch sylw at y ffaith mai cyfartaledd yw incwm cyfartalog pob gwlad, a bydd gan rai pobl gyflogau uwch o lawer a bydd gan rai gyflogau is o lawer.
- Eglurwch fod gwahanol ffyrdd o fesur anghydraddoldeb o fewn gwledydd. Un ffordd o'i fesur yw'r gymhareb neu'r mynegai GINI. Gellir ei ystyried yn fath o sgôr tegwch sy'n dangos pa mor gyfartal neu anghyfartal yw pobl o fewn gwlad.
- Dangoswch sleid 11 ac eglurwch y byddai sgôr tegwch o 0 yn golygu y byddai gan bob un yn y wlad union yr un faint o arian; nid oes anghydraddoldeb o ran incwm. Nid yw hyn yn wir mewn unrhyw wlad. Trafodwch deimladau'r dysgwyr am y posibilrwydd hwn. *A fyddai'n deg pe bai pawb yn ennill yr un faint o arian?* Efallai fod rhesymau pam y dylai rhai pobl ennill mwy o gyflog. Er enghraifft, bydd gan rai pobl swyddi uwch â mwy o gyfrifoldeb yn y gweithle, neu efallai y byddant am weithio llai o oriau am eu bod am dreulio mwy o amser gyda'r teulu, neu yn gwneud pethau eraill.
- Dangoswch sleid 12 ac eglurwch y byddai sgôr tegwch o 100 yn golygu y byddai'r wlad yn gwbl anghyfartal. Y realiti yw nad oes yr un wlad yn y sefyllfa hon, chwaith. Trafodwch deimladau'r dysgwyr am y posibilrwydd hwn. *A ydych yn meddwl bod hyn yn deg? A hoffech chi fod yn gyfoethocach o lawer na phawb arall? A hoffech chi fod ar y pegwn arall, heb ddim arian o gwbl?*
- Eglurwch fod pob gwlad rywle yn y canol, rhwng 0 a 100. Mae gwledydd mwy cyfartal yn agosach at 0 ac mae'r gwledydd sydd fwyaf anghyfartal yn agosach at 100. Dangoswch sleid 13 a gofynnwch i'r dysgwyr blotio pedair enghraifft ar y raddfa. Cliciwch ar y sleid i ddangos y saethau sy'n dangos bras leoliadau'r gwledydd ar y raddfa. *Pa un o'r gwledydd hyn yw'r tecaf? (Gwlad yr Iâ) Pa wlad sydd fwyaf anghyfartal? (Brasil).*
- Defnyddiwch sleid 14 i dynnu sylw at y ffaith nad yw anghydraddoldeb yn ymwneud yn unig â'r modd y caiff arian ei rannu rhwng gwledydd neu o fewn gwledydd. Mae anghydraddoldeb hefyd yn effeithio ar y cyfleoedd sydd ar gael i bobl. Er enghraifft, yn y byd chwaraeon, mae gan rai athletwyr fynediad at well cyfleusterau a hyfforddiant nag eraill. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am ffyrdd eraill y gall fywydau pobl fod yn anghyfartal, megis mynediad at ddŵr, addysg a gofal iechyd.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Dangoswch sleid 15 a gofynnwch i'r dysgwyr a ydynt o'r farn fod gan bob gwlad sy'n cymryd rhan yng Nghwpan y Byd siawns gyfartal o ennill. Pam/Pam ddim? Ewch ati i'w hannog i ystyried y rhesymau posibl sy'n gysylltiedig â phêl-droed (megis cael y chwaraewyr gorau neu reolwr da) a rhesymau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â phêl-droed (megis addysg well a gofal iechyd, neu fod y llywodraeth yn buddsoddi mwy mewn chwaraeon).
- Dangoswch sleid 16 ac eglurwch fod FIFA yn gosod pob tîm Cwpan y Byd mewn safle ar restr detholion yn ôl eu siawns o ennill. *Noder:* Mae *FIFA yn cyfrifo'r safleoedd hyn gan edrych ar gyfanswm pwyntiau'r tîm dros y pedair blynedd diwethaf; gall timau ennill pwyntiau o'r gemau a chwaraeir gyda gwledydd eraill. Y mwyaf llwyddiannus yw'r tîm, y mwyaf o bwyntiau y mae'n eu hennill, a'r uchaf yw'r safle. Am ragor o wybodaeth ar y broses o bennu safleoedd ar y rhestr detholion, ewch i:* www.fifa.com/fifa-world-ranking/procedure/men.html <http://www.fifa.com/fifa-world-ranking/procedure/men.html>
- Nodwch fod y safleoedd hyn yn awgrymu nad yw'r siawns o lwyddo yn gyfartal ymysg timau o wahanol wledydd a chyfandiroedd. Efallai y byddwch am ofyn i'r dysgwyr lunio datganiadau ynghylch tebygolrwydd y timau o ennill, yn seiliedig ar eu safleoedd. Ceir enghreifftiau yn nodiadau'r sleidiau.
- Eglurwch fod y dysgwyr yn mynd i chwarae gêm *Cardiau Cryfion Cwpan y Byd* i ymchwilio i sut y mae incwm, anghydraddoldeb o fewn gwledydd a safleoedd FIFA yn amrywio rhwng y gwledydd sy'n cymryd rhan yng Nghwpan y Byd 2018.
- Cefnogwch y dysgwyr i chwarae'r gêm. Mae'r cardiau a'r cyfarwyddiadau ar gael i'w lawrlwytho ar wahân.
- Rhowch amser ar gyfer trafodaeth yn ystod ac ar ddiwedd y gêm. Ceir cwestiynau posibl ar sleid 17.

Gweithgaredd 3 (*45 mun*)

Mapio anghydraddoldeb rhwng gwledydd

Noder: Bydd angen i'r dysgwyr ddefnyddio atlas neu'r rhyngrwyd ar gyfer y gweithgaredd hwn. Bydd dysgwyr hefyd yn archwilio'r cysylltiad rhwng incwm gwlad a'i siawns o ennill yn Sesiwn Fathemateg Cwpan y Byd.

- Trefnwch y dysgwyr yn barau, a rhowch gopi o *Tabl ystadegau Cwpan y Byd* i bob pâr (Taflen Adnoddau 1). Eglurwch fod y tabl hwn yn dangos y data o'r *Cardiau Cryfion Cwpan y Byd*. *Noder: Mae'r data hefyd ar daenlen ystadegau Cwpan y Byd MS Excel, sydd ar gael i'w lawrlwytho ar wahân.*
- Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar y data yn eu tabl. Efallai y byddwch am ofyn cwestiynau iddynt am y data. Neu, gall y dysgwyr feddwl am eu cwestiynau eu hunain am y data, a'u holi i eraill yn y dosbarth. Ceir cwestiynau posibl ar sleid 18. *Noder: Ceir yr atebion i'r sleidiau hyn yn nodiadau'r sleidiau.*
- 'Nawr rhowch gopi A3 o *Mapio Incwm blynyddol cyfartalog y Pen, Mapio Sgorau Tegwch* neu *Mapio Safleoedd FIFA* i bob pâr (Taflenni Gweithgaredd 1 i 3).
- Gofynnwch i'r dysgwyr lenwi'r allwedd codau lliw ar eu map er mwyn cynrychioli'r cynnydd yng ngwerth y dangosydd (incwm blynyddol cyfartalog y pen, sgôr tegwch neu safle FIFA), yn amrywio o'r gwerthoedd isaf i'r uchaf ar gyfer y gwledydd yn y tabl. Dylid dewis lliw ac yna amrywio'r graddliw yn ddibynnol ar werth y dangosydd: y mwyaf yw gwerth y dangosydd, y

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

tywyllaf yw'r graddliw. *Noder: Mae'r amrywiaeth ar gyfer incwm cyfartalog y pen yn cyfateb i'r rheini ar gyfer gwahanol grwpiau incwm y gwledydd a bennir gan Fanc y Byd.*

- Dylai'r dysgwyr fynd ati wedyn i raddliwio pob gwlad yn y tabl ar eu map o'r byd er mwyn dangos ei gwerth ar gyfer y dangosydd hwn. Ceir enghreifftiau o fapiau'r byd sydd wedi'u graddliwio yn y modd yma ar wefan *Data Agored Banc y Byd* (data.worldbank.org/indicator <https://data.worldbank.org/indicator>). Mewnbynnwch ddangosydd (er enghraifft, disgwyliad oes), cliciwch ar *Go* ac yna cliciwch ar yr opsiwn *Map* uwchben y data.
- Rhowch amser ar ddiwedd y gweithgaredd i'r dysgwyr rannu a thrafod eu mapiau. Ceir cwestiynau trafod posibl ar sleid 19.
- Dangoswch sleid 20 ac eglurwch fod y map hwn yn dangos incwm blynyddol cyfartalog y pen mewn gwahanol wledydd ledled y byd. Caiff gwledydd sydd ag incwm cyfartalog is eu graddliwio yn oren ac yn felyn; caiff y gwledydd sydd ag incwm cyfartalog uwch eu graddliwio yn wyrdd. Trafodwch ymatebion y dysgwyr i'r mapio hwn. *Beth sylwch chi am y ffordd y mae incwm wedi'i ddosbarthu? Pam yr ydych chi'n meddwl eu bod yn gwneud hyn: Nid oes rhaid i ddysgwyr fedru darllen enwau'r gwledydd ar y map.*
- Yn olaf, dangoswch y map ar sleid 21. Eglurwch fod y map hwn yn dangos bod y byd yn wyrgam yn ôl cyfanswm nifer y gemau a chwaraewyd yng Nghwpan y Byd 2014. Trafodwch ymatebion y dysgwyr i'r mapio. *Pa wledydd/cyfandiroedd a oedd yn rhan o'r rhan fwyaf o gemau Cwpan y Byd? Beth yw'r rheswm dros hyn yn eich barn chi?* Gall fod yn ddefnyddiol adolygu'r rhesymau llwyddiant "pêl-droed" a rhai "nad ydynt yn ymwneud â phêl-droed" posibl a nodwyd gan y dysgwyr yn gynharach yn y sesiwn.

  Noder: *Cynhelir twrnamaint cymhwyso Cwpan y Byd ym mhob cyfandir (Affrica, Asia, Gogledd America, De America, Ewrop ac Awstralasia). Ar gyfer pob twrnamaint, mae FIFA yn penderfynu ymlaen llaw sawl lle cymhwyso fydd ar gyfer pob cyfandir, yn seiliedig ar niferoedd a chryfder cymharol y timau sy'n cymryd rhan. Mae mwy o dimau Ewropeaidd yng Nghwpan y Byd gan fod FIFA yn dyrannu mwy o leoedd ar eu cyfer. Mae'r wlad sy'n cynnal Cwpan y Byd (Rwsia yn 2018) yn cymhwyso yn awtomatig. Am ragor o wybodaeth, gweler:* ***www.fifa.com/worldcup/preliminaries/index.html <http://www.fifa.com/worldcup/preliminaries/index.html>***

Gwahaniaethu

- *Gwneud pethau'n haws: Yn hytrach na defnyddio pedair gradd o'r un lliw, gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio lliw cadarnhaol a lliw negyddol, e.e. yn amrywio o goch tywyll i goch golau, glas golau a glas tywyll. Neu, gofynnwch iddynt ddefnyddio gwahanol batrymau, megis croeslinellu, i gynrychioli ystod y gwerthoedd ar gyfer y dangosydd a ddewiswyd ganddynt.*
- *Gwneud pethau'n anos: Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis data ar gyfer dangosyddion "datblygu" eraill o wledydd Cwpan y Byd (megis disgwyliad oes, cyfradd marwolaethau babanod, sgôr cydraddoldeb rhywiol neu ôl-troed carbon). Yna, gofynnwch iddynt greu allwedd codau lliw a map y byd wedi'i raddliwio i arddangos y data hyn.*

  Mae ffynonellau data defnyddiol yn cynnwys:

  - *data.worldbank.org*
  - ***hdr.undp.org/ên/data <http://hdr.undp.org/en/data>***
  - *www.weforum.org/reports/the-global-gender-gap-report-2017*
  - *www.globalcarbonatlas.org/*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Syniadau pellach

- Ewch ati i ymchwilio i'r nodweddion tebyg, y gwahaniaethau a'r cysylltiadau daearyddol eraill rhwng y gwledydd sy'n cymryd rhan yng Nghwpan y Byd 2018. Gallai'r dysgwyr ganolbwyntio ar agweddau penodol ar ddaearyddiaeth ffisegol a/neu ddynol. Neu, gallai parau o ddysgwyr ddewis gwahanol wledydd i ymchwilio iddynt, cyn dod yn ôl fel dosbarth cyfan i gymharu'r gwledydd hyn.
- Gallai dysgwyr mwy abl ddefnyddio gwefan Gapminder (www.gapminder.org) i ymchwilio i sut y mae dangosyddion "datblygu" eraill wedi newid dros amser, a sut y mae'r dangosyddion hyn yn amrywio mewn gwahanol wledydd ac yn rhanbarthau'r byd. *Pa enghreifftiau eraill sy'n bodoli o anghydraddoldeb rhwng gwledydd?*
- Ewch ati i ddarganfod ble yn y byd y mae'r bêl-droed yn cael ei chreu. Efallai mai dyma'r bêl-droed a ddefnyddir yn eich ysgol. Ewch ati i leoli'r gwledydd ar fap y byd. Trafodwch pwy sy'n ymwneud â chynhyrchu a gwerthu'r bêl-droed. Lluniwch ddiagram, ar ffurf cadwyn, o'r bobl sy'n rhan o'r broses, o'r gweithiwr ffatri i'r defnyddiwr yn y DU. Ewch ati i ymchwilio i amodau gwaith ac elw'r bobl sy'n rhan o'r broses gynhyrchu, a'u cymharu â rhai pobl eraill ar hyd y gadwyn.
    - Gwyliwch glip fideo byr (*Playing fair*: *The story of Fairtrade footballs*) o'r Sefydliad Masnach Deg i ddarganfod sut y mae'r bêl-droed yn cael ei gwneud ym Mhacistan, a'r effaith y mae Masnach Deg wedi'i chael ar fywydau rhai pobl sy'n ymwneud â'i chynhyrchu: schools.fairtrade.org.uk/resource/football/ <https://ssl.microsofttranslator.com/bv.aspx?ref=TAns&from=&to=cy&a=schools.fairtrade.org.uk%2Fresource%2Ffootball%2F> (8 munud, 5 eiliad).
    - Gweler *Fair's fair – Life and rights in the global sports industry,* Playfair, 2012 i gael gwybod mwy am rai o'r bobl sy'n gwneud y nwyddau hyn mewn gwledydd tlotach, yn aml yn gweithio heb lawer o hawliau, ac am gyflogau isel iawn: www.playfair2012.org.uk/wp-content/uploads/2011/09/TUC_Fairs-fair_booklet.pdf
- Defnyddiwch gadwyn *pam-pam-pam* i feddwl yn feirniadol am y materion sy'n gysylltiedig â Chwpan y Byd. Gallai cwestiynau posibl i'w harchwilio gynnwys:
    - *Pam y mae gan rai gwledydd fwy o siawns o ennill Cwpan y Byd nag eraill?*
    - *Pam y mae cymaint o'r timau safleoedd uwch yn Ewrop?*
    - *Pam y mae cymaint o chwaraewyr Cwpan y Byd yn chwarae i dimau cartref mewn gwledydd heblaw eu gwledydd eu hunain?* Noder: Mae canran y chwaraewyr yn y timau Cwpan y Byd cymwys sy'n chwarae i dimau tramor bron yn 65%[1].

  Gweler tudalen 12 o gyhoeddiad Oxfam *Global citizenship in the classroom: A guide for teachers* i gael rhagor o wybodaeth ar y gadwyn pam-pam-pam yn y dosbarth: www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship/global-citizenship-guides
- Ewch ati i ddysgu rhagor am yr hyn sy'n achosi anghydraddoldeb, ac archwiliwch ganlyniadau posibl anghydraddoldeb ar fywydau pobl ifanc mewn gwahanol rannau o'r byd, yn cynnwys y DU.

[1] R. Poli, L Ravenel ac R Besson (2017), Adroddiad Misol CIES Football Observatory rhif.30, Rhagfyr 2017: www.football-observatory.com/IMG/sites/mr/mr30/en/

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Gweler Adnodd daearyddiaeth Oxfam *More or less equal?* i ddysgwyr 11–16 oed: ://www.oxfam.org.uk/education/resources/more-or-less-equal-geography

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni. Er bod yr adnodd hwn yn cyfeirio at Gwpan y Byd drwyddo draw, defnydd golygyddol yn unig yw hwn ac nid oes cysylltiad mewn unrhyw ffordd rhwng FIFA a'r adnodd hwn.

Tabl ystadegau Cwpan y Byd

Taflen Adnoddau 1

Gwlad	Safle ar Restr Detholion FIFA	Incwm blynyddol cyfartalog y pen ($ UDA)	Grŵp Incwm y wlad	Sgôr Tegwch
Ariannin	5	11,970	Canolig-uwch	42
Awstralia	40	54,230	Uchel	35
Gwlad Belg	3	42,610	Uchel	28
Brasil	2	8,840	Canolig-uwch	51
Colombia	16	6,310	Canolig-uwch	51
Costa Rica	25	10,840	Canolig-uwch	49
Croatia	18	12,130	Canolig-uwch	31
Denmarc	12	56,990	Uchel	28
Yr Aifft	46	3,410	Canolig-is	32
Lloegr	13	42,370	Uchel	33
Ffrainc	7	38,720	Uchel	32
Yr Almaen	1	43,940	Uchel	32
Gwlad yr Iâ	22	56,760	Uchel	26
IR Iran	36	5,470	Canolig-uwch	39
Japan	60	38,000	Uchel	32
Mecsico	15	9,040	Canolig-uwch	43
Moroco	42	2,880	Canolig-is	41
Nigeria	47	2,450	Canolig-is	43
Panama	55	12,140	Uchel	50
Periw	11	5,950	Canolig-uwch	44
Gwlad Pwyl	10	12,680	Uchel	32
Portiwgal	4	19,870	Uchel	36
Rwsia	66	9,720	Canolig-uwch	38
Sawdi Arabia	67	21,720	Uchel	Dim data
Senegal	28	950	Isel	40
Serbia	35	5,310	Canolig-uwch	29
De Corea	61	27,600	Uchel	32
Sbaen	8	27,580	Uchel	36
Sweden	23	54,770	Uchel	29
Y Swistir	6	82,090	Uchel	33
Tunisia	**14**	3,390	Canolig-is	36
Uruguay	17	15,230	Canolig-uwch	40

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Mapio incwm blynyddol cyfartalog y pen

Taflen Weithgaredd 1



Incwm cyfartalog y pen	
Gwerth	**Graddliw**
$1,005 UDA neu lai	
$1,006 UDA –$3,955 UDA	
$3,956–$12,235 UDA	
$12,236 UDA neu ragor	

Ffynhonnell y map: Y Gymdeithas Ddaearyddol www.geography.org.uk

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Mapio Sgorau Tegwch

Taflen Weithgaredd 2



Ffynhonnell y map: Y Gymdeithas Ddaearyddol www.geography.org.uk

Sgôr Tegwch	
Gwerth	**Graddliw**
25–30	
31–35	
36–40	
41–45	
46+	

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Mapio Safleoedd FIFA

Taflen Weithgaredd 3



Safle FIFA	
Gwerth	**Graddliw**
0–9	
10–19	
20–40	
≥41	

Ffynhonnell y map: Y Gymdeithas Ddaearyddol www.geography.org.uk

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.